YSGOL GYMUNEDOL TRIMSARAN

'Gwnawn ein gorau glas'

Heol Waunyclun, Cydweli, Sir Gâr, SA17 4BE
**Ffôn/Phone:** 01554 810670
**Ebost/Email:** admin@trimsaran.ysgolccc.cymru
**Gwefan/Website:** www.ysgoltrimsaran.org.uk **Twitter/Trydar:** @YsgolTrimsaran

27.10.2023

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid,

Hoffem eich hysbysu y byddwn, o ddydd Llun Tachwedd y 6ed, yn cychwyn ar ymgyrch er mwyn hybu'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob ardal o'r ysgol. Ar ein cynllun datblygu ysgol eleni mae codi a gwella safonau Cymraeg bob dysgwr yn un o'm brif flaenoriaethau.

Fel y gwyddoch, yr allwedd i gaffael, datblygu a meistroli sgiliau ieithyddol ydy llwyr amgylchynu'ch hun a throchi yn yr iaith, ond yn bennaf oll, ymarfer.

Ystyriwch hyn, os nad yw'ch plentyn yn manteisio ar gyfleoedd i ymarfer ei sgiliau Cymraeg ar y buarth, nac yng nghoridor yr ysgol nac ar lawr y dosbarth; pryd fydd yr ymarfer hanfodol hwn yn digwydd? Ai cyfanswm eu hymarfer sgwrsio Cymraeg fydd eu rhyngweithio uniongyrchol â staff yr ysgol?

Fel ysgol rydym wedi sylwi ar ostyngiad yn y defnydd cymdeithasol a sgyrsiol o'r Gymraeg ers amser clo Covid. Yn naturiol, o ystyried bod canran uchel iawn o'n disgyblion yn dod o gartrefi di-gymraeg, bu mynediad i gyfleoedd sgwrsio Cymraeg yn gyfyngedig yn ystod y cyfnod hwn. Credwn hefyd yn ystod yr amser yma fod arferion iaith wedi'u sefydlu o fewn grwpiau ffrindiau y bu'n anodd eu gwrthdroi.

Yn Ysgol Gymunedol Trimsaran credwn yn gryf fod atgyfnerthu cadarnhaol, gwobrwyo ymdrech ac ymrwymiad ac amlygu enghreifftiau o ymroddiad da yn ganolog i'r ymdrech hwn. Gyda hyn mewn golwg, dyma enghreifftiau o'r strategaethau bwriadwn eu defnyddio:

- Gwobrwyo 'Pom Poms' (tocynnau).
- Bydd y grŵp a'r mwyaf o 'PomPoms' o bob dosbarth yn ennill loli iâ.
- Atgyfnerthu cadarnhaol a chanmoliaeth gan bob aelod o staff.
- Gwasanaethau a gweithgareddau dosbarth i atgyfnerthu pwysigrwydd yr iaith Gymraeg i ennyn balchder yn niwylliant a threftadaeth Cymru.
- Atgyfnerthu geiriau Saesneg mae'r plant yn eu defnyddio yn y Gymraeg.
- Byddwn yn annog y plant i wylio rhaglenni teledu Cymraeg, gwrando ar fiwsig Cymraeg a dysgu am enwogion Cymru. Mae ein hunaniaeth yn bwysig iawn.

Heol Waunyclun, Cydweli, Sir Gâr, SA17 4BE
**Ffôn/Phone:** 01554 810670
**Ebost/Email:** admin@trimsaran.ysgolccc.cymru
**Gwefan/Website:** www.ysgoltrimsaran.org.uk **Twitter/Trydar:** @YsgolTrimsaran

Credwn y bydd cefnogaeth rhieni yn hanfodol er mwyn llwyddo gyda'r fenter hon. **Gofynnwn i chi fel rhieni drafod y pwyntiau canlynol gyda'ch plant:**

- Eglurwch i'ch plentyn y rhesymau pam y dewisoch eu hanfon i ysgol cyfrwng Cymraeg mewn ardal sydd â ysgolion Saesneg yn agos.
- Cefnogwch eich plentyn a'r ysgol trwy egluro eich disgwyliad iddynt siarad Cymraeg tra yn yr ysgol.
- Eglurwch iddynt fod ymarfer yn angenrheidiol er mwyn gwella ac felly mae siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau nid yn unig yn ddymunol ond hefyd yn hanfodol.

Gallwch fod yn hyderus yn y ffaith eich bod wedi gwneud penderfyniad ardderchog wrth ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn. Mae manteision dysgu'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn gyffredinol wedi'u dogfennu a'u hymchwilio'n eang ac mewn dyfnder.

Yn flynyddol, mae'r rhan fwyaf o'n disgyblion yn symud ymlaen o Ysgol Gymunedol Trimsaran i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y clwstwr, Ysgol Gyfun Y Strade. Felly, parhau ag addysg Gymraeg yw'r llwybr naturiol i bron bob un o'n disgyblion. Gofynnwn yn garedig am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth er mwyn rhoi mantais i'ch plentyn a fydd yn caniatáu iddo/iddi lewyrchu a ffynnu yn ystod y blynyddoedd pwysig, ffurfiannol hyn a rhoi sylfaen gadarn iddynt ar gyfer eu dyfodol.

Yn gywir,

Staff Ysgol Gymunedol Trimsaran

YSGOL GYMUNEDOL TRIMSARAN

'Gwnawn ein gorau glas'

Heol Waunyclun, Cydweli, Sir Gâr, SA17 4BE

**Ffôn/Phone:** 01554 810670

**Ebost/Email:** admin@trimsaran.ysgolccc.cymru

**Gwefan/Website:** www.ysgoltrimsaran.org.uk **Twitter/Trydar:** @YsgolTrimsaran

27.10.2023

Dear Parents/ Guardians,

We would like to inform you that starting from Monday November 6th we will be initiating a drive in order to promote the use of the Welsh language in all areas of the school. Improving learners Welsh oracy skills and standards are one of the main priorities on our school development plan this year therefore we ask for stakeholder support with the initiative.

As you know, the key to language acquisition, development and mastery is immersion and above all else, practice.

Consider this, if your child doesn't take advantage of opportunities to practise their Welsh language skills on the playground, nor in the school corridor or on the classroom floor when out of the teacher's earshot; when will this essential practice take place? Will their direct interactions with the school's staff be the total of their Welsh language conversation practice?

As a school, we have noticed a decline in the social and conversational use of the Welsh language since the lockdowns. Naturally, given that a very high percentage of our pupils come from non-Welsh speaking homes, access to Welsh conversation was restricted during this time. We also believe that during this period language habits, routines and customs were established within friendship groups that have been hard to reverse.

At Ysgol Gymunedol Trimsaran we firmly believe that positive reinforcement, rewarding effort and commitment and highlighting examples of dedication are central to the success of this endeavour. As such, examples of the strategies that will be used will include the following:

- Rewarding 'PomPoms' (tokens).
- A group from every class will win an ice lolly / hot chocolate if they have the highest number of 'PomPoms' each week.
- Positive reinforcement and praise by all staff members.
- Assemblies and classroom activities to reinforce the importance of the Welsh language to illicit pride in Welsh culture and heritage.
- English words used will be reinforced in Welsh to support your child.
- Children will be encouraged to watch Welsh language television programmes, listen to Welsh music and learn about famous Welsh people. Our culture is such an important part of our identity.

**Pennaeth / *Head:*** Mr Steffan Jones
**Dirprwy Bennaeth / *Deputy Head:*** Mr Tomos Jones

YSGOL GYMUNEDOL TRIMSARAN
'Gwnawn ein gorau glas'
Heol Waunyclun, Cydweli, Sir Gâr, SA17 4BE
**Ffôn/Phone:** 01554 810670
**Ebost/Email:** admin@trimsaran.ysgolccc.cymru
**Gwefan/Website:** www.ysgoltrimsaran.org.uk **Twitter/Trydar:** @YsgolTrimsaran

We believe that parental support will be vital to succeed with this initiative.
**We do ask that before your child returns to school on Monday, that you as parents discuss the following points:**

- Explain to your child the reasons why you chose to send them to a Welsh medium school in an area with such an abundance of English schools.
- Support your child and the school by explaining your expectation that they speak Welsh whilst at school.
- Explain to them that practising is essential to improve and speaking Welsh with their friends is not only desired but essential.

Please have confidence in the fact that you have made an excellent decision in choosing Welsh Medium education for your child. The advantages of learning the Welsh language and bilingualism in general are well documented and researched.

Year on year, more than 99% of our pupils' progress from Ysgol Gymunedol Trimsaran to the cluster Welsh medium secondary school, Ysgol Gyfun Y Strade therefore, continuing with Welsh medium education is the natural path for almost all of our pupils. We ask kindly for your cooperation and support to provide your child with an advantage that will allow them to flourish and prosper during these important, formative years and provide them with a solid foundation for their futures.

Yours sincerely,

Staff Ysgol Gymunedol Trimsaran